



Ein cyf/Our ref JJ/2340/22

John Griffiths AS,  
Cadeirydd,  
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

[John.Griffiths@senedd.cymru](mailto:John.Griffiths@senedd.cymru)

26 Gorffennaf 2022

Annwyl John,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, yn dilyn eich ymchwiliad i ail gartrefi yng Nghymru. Fel y byddwch wedi gweld a chlywed, mae hwn yn fater amlddimensiwn a chymhleth. Rwyf i a Gweinidogion eraill wedi bod yn glir nad oes gan Lywodraeth Cymru yr holl atebion wrth inni geisio gwrthsefyll yr effeithiau y mae nifer fawr o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn eu cael ar ein cymunedau mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Rwy'n croesawu ymchwiliad eang a defnyddiol iawn y Pwyllgor a'i adroddiad gan eu bod yn darparu gwybodaeth a thystiolaeth ychwanegol bwysig.

Rwyf i a'm cyd-Weinidogion wedi adolygu eich argymhellion ac yn rhoi ein hymatebion isod.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y mae'n diffinio ail gartrefi'n glir at ddibenion datblygu polisi. Mae'r diffiniadau dosbarth defnydd cynllunio arfaethedig newydd yn rhoi cyfle i ddarparu cysondeb. Ar y cyd â chynllun cofrestru neu drwyddedu ar gyfer llety gwyliau, bydd hyn yn sicrhau bod gwahaniaeth clir rhwng ail gartrefi at ddefnydd personol ac eiddo a ddefnyddir fel llety gwyliau tymor byr

### Derbyn

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried cyfleoedd i gysoni, cyn belled ag y bo modd, y diffiniad o ail gartref ar draws ei wahanol ddefnyddiau (er enghraifft at ddibenion trethi cenedlaethol a lleol, cynllunio a thwristiaeth). Mae ein penderfyniad i gyflwyno is-ddeddfwriaeth sy'n nodi gwahaniaethau clir yng nghydestun dosbarth defnydd rhwng prif gartrefi, ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn cynnig cyfle o'r fath. Bydd ymgynghoriad ar drwyddedu statudol ar gyfer pob llety gwyliau (gan gynnwys llety gwyliau tymor byr) yn dechrau yn ddiweddarach yn 2022.

Er nad yw darparu un diffiniad heb ei heriau, o ystyried y defnydd lluosog a wneir ar draws trethiant, cynllunio a meysydd eraill, byddwn yn parhau i ystyried lle y gellir sicrhau mwy o gysondeb.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariadau i'r Senedd bob chwe mis ar ddatblygiadau o ran cynllun peilot Dwyfor, gan gynnwys ei hasesiad o effeithiolrwydd y mesurau, a sail yr asesiad hwnnw. Dylai'r diweddariadau gynnwys gwybodaeth ynghylch sut mae'r effeithiolrwydd yn cael ei werthuso.

### **Derbyn**

Byddwn yn falch o ddarparu diweddariadau chwe misol parhaus ar ddatblygiadau o ran cynllun peilot Dwyfor a'i werthusiad.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu monitro effaith hirdymor yr ymyriadau sy'n digwydd fel rhan o gynllun peilot Dwyfor, gan gynnwys unrhyw effaith ar yr economi o ran ymwelwyr.

### **Derbyn**

Mae gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot yn cael ei gomisiynu a chaiff ei gynllunio i alluogi'r gwaith o ddadansoddi rhai o effeithiau hirdymor yr ymyriadau. Fodd bynnag, mae ansawdd ac argaeledd data i fonitro effeithiau yn parhau i gael eu harchwilio ac mae angen i'r gwerthusiad allu defnyddio ffynonellau data priodol o ansawdd uchel. Lle bo hynny'n ymarferol, bydd hyn yn cynnwys effeithiau ar yr economi o ran ymwelwyr a bydd angen gwneud rhagor o waith archwilio i benderfynu sut y gwneir hyn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu rhagor o waith ymchwil ar yr effaith y mae twristiaeth yn ei chael ar gynaliadwyedd cymunedau.

### **Derbyn**

Mae gwaith eisoes ar y gweill i ddeall agweddau trigolion at dwristiaeth, fel rhan o ymrwymiad yn ein strategaeth dwristiaeth 'Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-25' i wrando ar farn trigolion, ymwelwyr a busnesau lleol.

Bydd safbwyntiau trigolion yn hanfodol er mwyn deall effaith twristiaeth ar gymunedau. Byddwn yn cynnal yr arolwg gyda thrigolion eleni ac yn adolygu'r canfyddiadau ac yn ystyried a fyddai gwaith ymchwil pellach yn ychwanegu gwerth at y pwnc hwn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol, y tu hwnt i waith sydd ar y gweill, yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 5.** Wrth asesu'r ymyriadau a roddwyd ar waith fel rhan o gynllun peilot Dwyfor, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dylanwadu ar ddatblygiad polisi.

### **Derbyn**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn sail i'n gwaith o ddatblygu ein polisi. Mae'r nodau llesiant wrth wraidd yr hyn yr ydym am ei gyflawni, yn arbennig: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru sy'n fwy cyfartal; a Chymru sy'n fwy Llewyrchus. Mae'r pum ffordd o weithio yn rhan annatod o'n dull gweithredu – mae cydweithio â phartneriaid ac integreiddio yn hanfodol, yn ogystal ag atal er mwyn cyflawni ein dyheadau hirdymor ar gyfer cymunedau, a chynnwys pobl, cymunedau a sefydliadau partner yn Nwyfor a ledled Cymru. Bydd hyn yn parhau i fod yn wir wrth inni geisio sicrhau bod pobl leol, gan gynnwys pobl ifanc, yn gallu parhau i gael gafael ar dai lleol fforddiadwy ar draws deiliadaethau. Bydd y cynllun peilot yn chwarae rhan hollbwysig yn hyn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad i'r Senedd ar fwrw ymlaen ag argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar eiddo gwag yn 2019. Dylai'r diweddariad gael ei ddarparu erbyn mis Rhagfyr 2022.

### **Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad erbyn mis Rhagfyr 2022.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd strategaethau lleol a chenedlaethol yn sicrhau cyflenwad digonol o dai sydd o'r math priodol i fodloni gofynion lleol ac yn fforddiadwy yng nghyd-destun enillion lleol.

### **Derbyn**

Mae amcangyfrifon o'r Angen am Dai yn dangos bod angen 7,400 o gartrefi ychwanegol ledled Cymru bob blwyddyn. O dan yr amcangyfrif canolog, mae'r amcangyfrif hwn o'r angen am 7,400 o dai ychwanegol wedi'i rannu'n 3,900 o unedau tai'r farchnad ychwanegol (52% o'r angen ychwanegol am dai) a 3,500 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol (48% o'r angen ychwanegol am dai). O'r amcangyfrifon hyn, mae'n amlwg bod angen pob math o dai ledled Cymru. Cyfeirir

yn glir at y lefel hon o angen, a'r gofyniad i fynd i'r afael â'r angen, yn Cymru'r Dyfodol ac felly mae'n elfen allweddol o'r system gynllunio yng Nghymru.

Cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol yw cynnal adolygiadau cyfnodol o'r angen am dai, a gyflawnir drwy'r broses Asesu'r Farchnad Dai Leol (LHMA). Mae ansawdd a'r defnydd a wneir o'r allbynnau o'r asesiadau yn arbennig o bwysig i'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol ac maent yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu tai'r farchnad a thai fforddiadwy ac o ran diwallu'r angen am dai.

Cyhoeddwyd dull newydd o gynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai ar 31 Mawrth 2022. Mae'r dull newydd hwn yn rhoi mwy o gysondeb o ran sut y caiff yr Asesiadau eu cyflawni drwy ddarparu offeryn sydd wedi'i raglenwi. Mae'r dull newydd hefyd yn cynnwys adolygiad a chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesiadau o'r Farchnad Dai.

Ni fydd pob cymuned yn wynebu'r un heriau. Lle mae tystiolaeth yn dangos bod ail gartrefi yn her i'r cyflenwad o dai fforddiadwy, rydym yn disgwyl gweld hyn yn cael ei adlewyrchu mewn Asesiadau o'r Farchnad Dai, gan gynnwys ystyried yr effaith ar y Gymraeg. Bydd Asesiadau o'r Farchnad Dai hefyd yn nodi darpariaeth benodol ar gyfer anghenion tai.

Mae Asesiadau o'r Farchnad Dai yn hanfodol wrth bennu gofynion tai lleol ac maent yn rhan allweddol o Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI). Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad o'r Farchnad Dai bob pum mlynedd ac adnewyddu eu Lwfans Tai Lleol bob dwy flynedd. Mae'r asesiad hwn yn ei dro yn llywio CDLIau awdurdodau lleol, sy'n cynnwys targedau ar gyfer nifer y cartrefi fforddiadwy y mae'r awdurdod yn anelu at eu darparu dros gyfnod y cynllun. Rhaid i CDLIau hefyd nodi sut a ble y mae'r awdurdod yn bwriadu darparu'r cartrefi fforddiadwy i gyrraedd y targed y maent wedi'i sefydlu.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad i'r Senedd ar sut y mae'n bwriadu cyflawni ei tharged o adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd o fewn cyfnod y Senedd hon. Hoffem pe bai'r diweddariad yn cynnwys dadansoddiad o ble y mae'n bwriadu i'r cartrefi newydd hyn gael eu hadeiladu, yn unol â'r galw, ac yn unol ag anghenion cymunedau.

### **Derbyn mewn Egwyddor**

O'r Amcangyfrifon o'r Angen am Dai, mae'n amlwg bod angen tai ledled Cymru. Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu yn y sector cymdeithasol, nid yw'r llywodraeth yn adeiladu cartrefi ei hun. Dibynnir ar bartneriaid yn y sector tai i adeiladu'r cartrefi sydd eu hangen ar Gymru yn unol â'r broses Asesu'r Farchnad Dai Leol. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall yr angen lleol am dai y maent yn eu hwynebu a lleoliad y cartrefi hyn sydd eu hangen, o broses Asesu'r Farchnad Dai Leol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Er mwyn cefnogi'r ymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu yn y sector cymdeithasol, darparwyd y lefelau uchaf erioed o gyllid. Dyrannwyd £250m yn 2021-22 i'r Grant Tai Cymdeithasol, gan ddyblu'r gyllideb o 2020-21. Pennwyd y lefelau ariannu uchaf erioed hefyd drwy'r gyllideb yn y flwyddyn gyfredol hon (2022-23) gyda £300m a dyraniadau cyllideb ddrafft dangosol o £330m yn 2023-24 a £325m yn 2024-25.

Mae'r gyllideb hon yn cael ei dyrannu i awdurdodau lleol gan ddefnyddio fformiwla ac mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am gyflwyno cynlluniau i gyflawni ei flaenoriaethau tai strategol. Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo Cynlluniau Cyflawni Rhaglenni Awdurdodau Lleol (PDP) yn ffurfiol.

Mae gwaith wedi'i wneud i gysoni proses ariannu'r Grant Tai Cymdeithasol yn agosach â thystiolaeth o'r angen lleol am dai. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu "prospectws" sy'n amlinellu eu blaenoriaethau tai strategol ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol. Bydd awdurdodau lleol yn cael eu hannog i ddefnyddio tystiolaeth o'u Hasesiadau o'r Farchnad Dai i lywio eu prospectws ariannu wrth symud ymlaen.

Disgwylir y data cyntaf sy'n dangos cynnydd tuag at gyflawni'r targed yn yr Hydref a gellir darparu diweddariad pellach yn dilyn hyn.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru arwain drwy esiampl a sicrhau bod tir addas y mae'n berchen arno ar gael ar gyfer datblygiadau tai, gan gynnwys chwilio am gyfleoedd i wneud hynny fel rhan o gynllun peilot Dwyfor. Dylai manylion ar sut mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni hyn gael eu cynnwys yn y diweddariadau rheolaidd yr ydym wedi gofyn amdanynt ar gynllun peilot Dwyfor.

### Derbyn

Mae tir Llywodraeth Cymru sy'n addas ar gyfer tai yn cael ei geisio at y diben hwn. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n chwilio am dir i'w ddatblygu ledled Cymru (gan gynnwys Dwyfor) a bydd yn rhoi diweddariadau am y cynnydd yn ôl y gofyn.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd unrhyw gostau ychwanegol, pellach, yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y mae'n bwriadu gweithio gyda landlordiaid y sector preifat ac asiantaethau gosod tai o fewn ardal cynllun peilot Dwyfor i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi i'w rhentu

### Derbyn

Mae'r cynllun peilot yn cynnig cyfle i weithio gyda'r sector rhentu preifat. Y tu hwnt i'r cynllun peilot, lanswyd Cynllun Lesio Cymru ym mis Ionawr 2022, ac mae'n un o ymrwymadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu, sy'n werth £30 miliwn dros bum mlynedd. Bydd y cynllun yn gwella mynediad i dai fforddiadwy tymor hwy

yn y sector rhentu preifat. Bydd yn rhoi sicrwydd i denantiaid ac yn rhoi hyder i landlordiaid. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwmo i gynnig y cynllun.

Bydd perchnogion eiddo yn cael eu hannog i lesio eu heiddo i awdurdodau lleol yn gyfnewid am warant rhent ar gyfradd y Lwfans Tai Lleol. Mae cyllid ychwanegol o hyd at £5,000 ar gael i fodloni'r safonau angenrheidiol a/neu i wella'r sgôr EPC i C. Mae hyd at £25,000 o gyllid grant ar gael ar gyfer eiddo gwag. Bydd taliadau am gyfnodau gwag yn cael eu gwneud i'r Landlord, ac mae atgyweiriadau i'r eiddo yn ystod cyfnod y les yn cael eu cynnwys heb unrhyw gost i'r Landlord. Gall y Landlord ymuno â'r cynllun am gyfnod rhwng 5 ac 20 mlynedd gan helpu i roi hyder a sicrwydd iddynt o ran yr incwm a gaiff ei sicrhau dros y cyfnod.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd unrhyw weithgarwch a chostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu eglurder ynghylch sut y byddai comisiwn ar gymunedau Cymraeg yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac yn gwella ei waith.

### Derbyn

Prif nod y Comisiwn ar gymunedau Cymraeg yw gwneud argymhellion i gryfhau polisi mewn perthynas â chynaliadwyedd ieithyddol y cymunedau hynny. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r Gymraeg fel iaith gymunedol/gymdeithasol mewn gwahanol ardaloedd a sefyllfaoedd. Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, a bydd y gwaith hwn yn digwydd yng nghyd-destun strategaeth genedlaethol.

Fodd bynnag, credwn fod parhau â'r Gymraeg fel iaith gymunedol mewn ardaloedd lle mae'n cael ei defnyddio'n helaeth fel prif iaith y gymuned, neu lle mae hyn wedi bod yn wir tan yn gymharol ddiweddar, yn hanfodol i'r cymunedau hynny a hefyd i'r Gymraeg fel iaith genedlaethol. Mae hyn yn hanfodol hefyd i gyrraedd targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Bydd cyrraedd y miliwn yn llawer anos os bydd dirywiad ieithyddol sylweddol yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

Bydd y comisiwn yn arwain ar ddadansoddiad cymdeithasol-ieithyddol o gyflwr yr iaith yn ein cymunedau. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r heriau ieithyddol, economaidd-gymdeithasol ac ailstrwythuro cymdeithasol sy'n wynebu ein cymunedau. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 pan gânt eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Bydd y gwaith manwl a wneir gan y Comisiwn yn sicrhau y bydd Awdurdodau Cyhoeddus, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, yn gwella ymhellach eu gwaith a'u dealltwriaeth o gyd-destun a phersbectif ieithyddol cymunedau Cymraeg yr ydym i gyd yn eu gwasanaethu.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod comisiwn ar gymunedau Cymraeg yn rhoi blaenoriaeth i gael gwell data ar y gydberthynas rhwng cymunedau â nifer fawr o ail

gartrefi â nifer y siaradwyr Cymraeg, gan ddechrau drwy ddadansoddi cyfrifiad 2021 fel mater o frys.

### **Derbyn**

Bydd y Comisiwn ar Gymunedau Cymraeg yn dadansoddi'n fanwl ganlyniadau Cyfrifiad 2021 a data perthnasol arall pan gânt eu cyhoeddi. Bydd hyn yn sicrhau bod y Comisiwn a'r Llywodraeth yn fwy gwybod wrth greu sylfaen dystiolaeth gadarn.

Bydd gwaith o'r fath yn cynnwys dadansoddi'r cydberthynasau rhwng dwysedd ail gartrefi mewn cymunedau penodol a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hynny, a pherthnasedd hyn o fewn fframwaith polisi. Bydd hyn yn digwydd yng nghyd-destun dadansoddiad ehangach o'r cydberthynasau rhwng y Gymraeg ar lefel gymunedol a nifer o ddangosyddion cymdeithasol ac economaidd-gymdeithasol gydag ystyriaethau polisi cyhoeddus posibl.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil ar effaith Brexit a'r pandemig Covid-19 ar dueddiadau o ran tai, i asesu maint y symud o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig ac arfordirol.

### **Derbyn**

Nid yw'n hysbys a oes data o ansawdd uchel a fyddai'n galluogi'r gwaith o ddadansoddi'r pynciau hyn ar raddfa ddaearyddol briodol. Bydd swyddogion yn archwilio dichonoldeb ymgymryd â'r gwaith ymchwil hwn, gan gynnwys archwilio argaeledd ac ansawdd y data sydd ei angen.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd unrhyw gostau ychwanegol, ar ôl archwilio dichonoldeb, yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun peilot Dwyfor yn destun gwerthusiad annibynnol trylwyr i lywio polisi cenedlaethol, polisi rhanbarthol a pholisi lleol yn y dyfodol.

### **Derbyn**

Bydd y cynllun peilot yn destun gwerthusiad annibynnol cadarn. Mae'r gwaith paratoi ar y gwerthusiad eisoes wedi dechrau.

**Goblygiadau ariannol:** Dim oherwydd ei fod wedi'i gymeradwyo yn flaenorol ac mae'r gwaith ar y gweill. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru i sicrhau bod data ar ail gartrefi ac eiddo prynu i osod wedi'u gwahanu'n glir, a'u bod ar gael ar lefel gymunedol i helpu i lywio datblygiad polisi.

### **Derbyn**

Rydym yn cydnabod y gallai cael gafael ar y math hwn o ddata – a data yn fwy cyffredinol ar dir ac eiddo yng Nghymru – agor ystod o gyfleoedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Wrth i Lywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru ddatblygu'r ystod o fentrau yn y maes hwn, gan gynnwys cynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau tymor byr a datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer amrywiadau lleol i gyfraddau'r Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau, byddwn yn ystyried sut y gall y mentrau hyn helpu i gefnogi'r gwaith o fodloni gofynion data ehangach a chyfleoedd i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi yn y dyfodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Unwaith eto, rydym yn diolch i'r Pwyllgor am roi ystyriaeth ofalus i'r maes hwn sy'n amlwg yn gymhleth. Byddaf i a'm cydweithwyr yn edrych ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau wrth inni barhau i ddefnyddio ein hadnoddau i weithredu'r ymyriadau cytbwys angenrheidiol.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change